

Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2019

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2471A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	4
Negeseuon allweddol	5
Argymhellion	6
Adroddiad manwl	
Strategaeth sefydliadol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion	10
Diwylliant sefydliadol	13
Strwythurau a phrosesau llywodraethu	22
Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd	26
Atodiadau	
Atodiad 1 – ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio	29
Atodiad 2 – canfyddiadau'r arolwg staff	40

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 Dylai ansawdd fod 'wrth wraidd' pob agwedd ar ofal iechyd ac mae rhoi ansawdd a diogelwch cleifion uwchlaw popeth arall yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n tanategu'r GIG yng Nghymru. Gall gofal o ansawdd gwael fod yn gostus hefyd o ran niwed, gwastraff ac amrywiad. Mae angen i sefydliadau'r GIG a'r unigolion sy'n gweithio ynddynt fod â fframwaith llywodraethu cadarn i helpu i sicrhau y darperir gofal iechyd diogel, effeithiol ac o ansawdd da. Un o ddibenion allweddol y trefniadau 'llywodraethu ansawdd' hyn yw helpu sefydliadau a'u staff i fonitro a, lle y bo angen, gwella safonau gofal.
- 2 Mae'r ymgais i wella ansawdd wedi cael ei atgyfnerthu mewn strategaethau iechyd a gofal cymdeithasol dilynol dros y ddau ddegawd diwethaf. Ym mis Mehefin 2020, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) yn gyfraith. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r ddyletswydd i sicrhau gwelliannau mewn ansawdd ar draws systemau cyfan, yn ogystal â gosod dyletswydd gonestrwydd ar gyrff y GIG, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored a gonest pan fo pethau'n mynd o chwith i'w gwneud yn bosibl dysgu gwersi. Mae'r Ddeddf yn dynodi bod ansawdd yn cynnwys effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau iechyd a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau ond nad yw'n gyfyngedig i hynny.
- 3 Rhaid i ansawdd a diogelwch redeg trwy bob agwedd ar gynllunio a darparu gwasanaethau a bod yn eglur yng nghynlluniau tymor canolig integredig cyrff y GIG. Disgwylir i gyrff y GIG fonitro ansawdd a diogelwch ar lefel y bwrdd a thrwy eu holl wasanaethau, partneriaethau a lleoliadau gofal. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein gwaith Asesu Strwythuredig blynyddol ledled Cymru wedi cyfeirio at amryw heriau, gan gynnwys yr angen i wella llifoedd sicrwydd mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch, goruchwyliaeth ar archwilio clinigol, a gwaith i dracio canfyddiadau ac argymhellion rheoleiddio ac arolygu. Bu hefyd nifer o bryderon proffil uchel ynghylch ansawdd gofal a mecanweithiau llywodraethu cysylltiedig yng nghyrrff unigol y GIG.
- 4 O ystyried y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod byrddau'r GIG, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol yn cael eu sicrhau bod trefniadau llywodraethu ansawdd yn effeithiol a bod cyrff y GIG yn cynnal ffocws digonol ar ansawdd wrth ymateb i bandemig COVID-19. Mae fframwaith cynllunio cyfredol GIG Cymru'n adlewyrchu'r angen i ystyried y niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae'n bwysig bod cyrff y GIG yn sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu ansawdd yn cefnogi trosolwg sefydliadol dda ar y niweidiau hyn fel rhan o'u dull ehangach o sicrhau gwasanaethau diogel ac effeithiol.
- 5 Fe wnaeth ein harchwiliad archwilio pa un a yw trefniadau llywodraethu'r sefydliad o gymorth i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd da. Fe wnaethom ganolbwyntio ar y dull sefydliadol a chorfforaethol o lywodraethu ansawdd, diwylliant ac ymddygiadau sefydliadol, strategaeth, strwythurau a phrosesau, llifoedd gwybodaeth a phrosesau adrodd. Nid oedd ein hadolygiad yn cynnwys asesiad o bryderon na chwynion penodol ynghylch ansawdd a oedd yn

mynd rhagddynt. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau ein gwaith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Awst 2021. I brofi'r safbwynt 'o'r llawr i'r bwrdd', fe wnaethom archwilio'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol; roedd hyn yn cynnwys cynnal arolwg ymhlith staff gweithredol sy'n gweithio ar draws llawfeddygaeth gyffredinol. Dangosir canfyddiadau'r arolwg yn **Atodiad 2**.

- 6 Fel rhan o'n dull archwilio, rydym wedi cydweithio'n agos gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu ac i atal unrhyw achos o ddyblygu gweithgarwch. Yn unol â gofynion deddfwriaethol a chanllawiau COVID ar adeg ein gwaith maes, cafodd yr holl waith archwilio ei wneud o bell.

Negeseuon allweddol

- 7 Ar y cyfan, canfuom fod y **Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella trefniadau llywodraethu ansawdd trwy ailddatblygu ei Strategaeth Gwella Ansawdd a chynlluniau, adolygu ei brosesau a systemau llywodraethu, a buddsoddi mewn adnoddau ac aildrefnu adnoddau sy'n eu cefnogi. Ceir proses dda ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau i graffu ar wybodaeth ac adroddiadau am ansawdd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella, megis sicrhau bod y blaenoriaethau ansawdd newydd yn adlewyrchu risgiau i ansawdd a risgiau o niwed mewn perthynas â phwysau sylweddol cyfredol ar wasanaethau, sefydlu adolygiadau amlddisgyblaethol o farwolaethau, gwella gwersi a ddysgir ar draws y sefydliad a mynd i'r afael ag anghysonderau mewn adnoddau ar gyfer gweithgareddau gwella ansawdd.**
- 8 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull rhagweithiol o ddiweddarau ei Strategaeth Gwella Ansawdd a'r fframwaith ansawdd ategol ac yn ceisio rheoli risgiau i ansawdd yn weithredol. Mae'n buddsoddi mewn gwella ansawdd ac yn gwreiddio'i ddiwylliant a'i ymddygiadau trwy ei raglen Yn Gryfach Gyda'n Gilydd. Mae trefniadau llywodraethu ansawdd a diogelwch corfforaethol a gweithredol yn cael eu cryfhau, er enghraifft trwy fframwaith llywodraethu integredig newydd y Bwrdd Iechyd. Mae gan y Bwrdd Iechyd adnoddau corfforaethol a gweithredol digonol i gefnogi trefniadau llywodraethu ansawdd, y mae'n eu had-drefnu ac yn eu cryfhau i sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad ac osgoi gweithio mewn seilios a dyblygu. Mae'r Bwrdd yn cael lefel dda o wybodaeth i graffu ar niwed o COVID-19 ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella ddangosfyrddau ansawdd. Caiff y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ei wasanaethu'n dda â gwybodaeth am ansawdd, ac mae hyn yn arwain at ffocws cryfach ar wella.
- 9 Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella. Mae ar Strategaeth Ansawdd a Gwella newydd y Bwrdd Iechyd angen deilliannau mwy eglur y gellir eu monitro, a bydd angen i flaenoriaethau ansawdd newydd adlewyrchu cynlluniau adfer COVID-19. Er bod trefniadau rheoli risg yn gwella, canfuom amrywiadau mewn adnoddau a hyfforddiant rheoli risg ar lefel weithredol. Canfuom hefyd fod angen i'r Bwrdd Iechyd roi ei adnoddau ar waith yn well ar gyfer gweithgareddau gwella ansawdd

megis archwilio clinigol ac adolygiadau o farwolaethau a sicrhau ei fod yn dangos gwersi a ddysgwyd ac effaith o'r gweithgareddau hyn. Dywedodd cyfran weddol uchel o staff y Bwrdd lechyd a ymatebodd i arolwg staff GIG Cymru eu bod wedi profi bwlio, aflonyddu neu gam-drin. O ystyried bod llai na hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod y sefydliad yn gweithredu'n effeithiol pan fo'n digwydd, mae ar y Bwrdd lechyd angen systemau gwell ar gyfer rheoli'r pryderon hyn, mynd i'r afael â hwy a dysgu ohonynt. I leihau'r risg y bydd materion ansawdd a diogelwch yn cael eu colli mae angen i'r Bwrdd lechyd ddarparu arweiniad ar gyfer staff ynghylch defnyddio'i dempled 'A driphlyg' newydd, sy'n amlygu materion hollbwysig (Rhybudd), yn crynhoi gweithgarwch (Sicrwydd) ac yn nodi cyflawniadau arwyddocaol (Cyflawniadau), gan nodi'n enwedig faint o fanylion a ddisgwylir a sut i gytuno pa faterion ddylai gael eu huwchgyfeirio. Er bod y Bwrdd lechyd yn cymryd camau i wella'i ddangosfyrddau ansawdd a diogelwch cleifion, mae angen gwaith pellach, ac mae angen adolygu cymorth dadansoddi data gweithredol. Mae'r mesurau yn yr adroddiad integredig ar ansawdd a pherfformiad yn gyson â fframwaith cyflawni'r GIG, ond nid oedd unrhyw fesurau ansawdd y cytunwyd arnynt yn lleol na mesurau ehangach o berfformiad fel ar gyfer gwasanaethau cymunedol. Mae angen i'r Bwrdd lechyd hefyd fod â ffocws cryfach ar ddeilliannau, mesurau lleol, ac ansawdd gwasanaethau ehangach y mae'r Bwrdd lechyd yn eu darparu ac yn eu comisiynu.

- 10 Gan nodi'r gwaith sydd eisoes ar y gweill yn y Bwrdd lechyd i gryfhau trefniadau llywodraethu ansawdd, dylai'r gofynion gwella a amlygir yn yr adroddiad hwn gael eu defnyddio i ddarparu ffocws pellach ar gyfer y gwaith hwnnw, ac i sicrhau pan fo pryderon yn codi mewn meysydd penodol, fel y maent wedi gwneud o fewn gwasanaethau iechyd meddwl a fasnwlaid, bod y Bwrdd lechyd yn meddu ar y trefniadau angenrheidiol i fynd ati'n gyflym i'w hadnabod ac ymateb iddynt ac i atal materion tebyg rhag digwydd yn y dyfodol.

Argymhellion

- 11 Caiff argymhellion sy'n codi o'r archwiliad hwn eu nodi yn **Arddangosyn 1**. Caiff ymateb rheolwyr y Bwrdd lechyd i'r argymhellion hyn ei grynhoi yn **Atodiad 1**.

Arddangosyn 1: argymhellion

Argymhellion

Blaenoriaethau o ran ansawdd a diogelwch cleifion

- A1 Canfuom nad aeth y Bwrdd lechyd ati'n ffurfiol i adolygu ei flaenoriaethau gwella ansawdd yng ngoleuni canlyniadau COVID-19. Dylai'r Bwrdd lechyd

Argymhellion

sicrhau bod ei Strategaeth Gwella Ansawdd newydd yn nodi sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn rheoli ac yn lliniaru'r niweidiau posibl sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19.

Hyfforddiant rheoli risg

- A2 Canfuom nad yw'r holl staff gweithredol yn cael eu hyfforddi i gofnodi risgiau clinigol ac anghlinigol a llunio cofrestrau risgiau. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan staff lefelau digonol o hyfforddiant rheoli risg fel eu bod yn gallu cyfrannu'n hyderus at y broses adnabod ac uwchgyfeirio risg.
-

Cymorth gwella ansawdd

- A3 Mae Hyb Gwella Ansawdd y Bwrdd Iechyd (BCUQI) wedi datblygu cronfa ddata gwella ansawdd i alluogi staff i rannu, mabwysiadu a dysgu o brosiectau gwella ansawdd presennol. Fodd bynnag, canfuom nad yw'r gronfa ddata'n cael ei defnyddio rhyw lawer. Dylai'r Bwrdd Iechyd hyrwyddo'r gronfa ddata ac annog staff i'w defnyddio'n rheolaidd trwy osod targedau ar gyfer cyfranogi, trwy adolygu lefel yr ymgysylltiad yn rheolaidd a thrwy weithredu os yw ymgysylltiad yn rhy isel.
-

Archwilio Clinigol

- A4 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ailddechrau archwiliadau clinigol wedi i'r rhan fwyaf o weithgarwch gael ei atal yn ystod y pandemig. Dylai'r Bwrdd Iechyd amcanu at ddefnyddio'i raglen o waith archwilio clinigol i ganolbwyntio ar y risg o niwed o ganlyniad i'r pandemig. Er enghraifft, i ddeall yn well beth yw canlyniadau arosiadau hir neu waethygiad cyflyrau cronig. Gallai'r archwiliadau gael eu targedu at arbenigeddau risg uchel.
-

Adolygiadau o farwolaethau

- A5 Canfuom nad yw adroddiadau adolygu marwolaethau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad mewn modd amserol. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cael adroddiad adolygu marwolaethau chwarterol, sy'n amlygu gwersi a pha gamau gweithredu a gymerwyd.
- A6 Canfuom fod adolygiadau o farwolaethau, ar y cyfan, yn cael eu harwain gan staff meddygol, ond bod awydd am adolygiadau amlddisgyblaethol o

Argymhellion

farwolaethau. Dylai'r Bwrdd lechyd geisio sefydlu system lle mae cymysgedd amlddisgyblaethol o staff yn cael eu cynnwys yn rheolaidd mewn adolygiadau o farwolaethau.

Rhannu gwersi ac arfer da

- A7 Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod nad oes ganddo eto broses i rannu gwersi ar draws y sefydliad mewn modd systematig. Dylai'r Bwrdd lechyd ddefnyddio'r fframwaith llywodraethu integredig newydd a'r Hyb Gwella Ansawdd (BCUQI) fel offer i gefnogi dysgu sefydliadol a rhannu arfer da ar draws y sefydliad.

Gwerthoedd ac ymddygiadau

- A8 Dim ond 37.9% o'r staff yn y Bwrdd lechyd a ymatebodd i arolwg staff y GIG oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn cymryd camau gweithredu effeithiol pan fo bwlio, aflonyddu neu gam-drin yn digwydd. Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu ei systemau ar gyfer rheoli pryderon staff mewn perthynas â bwlio, aflonyddu neu gam-drin, ar gyfer mynd i'r afael â'r pryderon hynny ac ar gyfer dysgu ohonynt.

Ymdrin â chwynion

- A9 Canfuom nad oedd timau gweithredol yn gwybod pa gyfran o staff oedd wedi cael eu hyfforddi i ymchwilio i gwynion, digwyddiadau a dadansoddi achosion sylfaenol. Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu lefelau'r hyfforddiant ymdrin â chwynion ar draws y sefydliad. Os yw hyn yn dangos diffygion, dylid ehangu'r rhaglen o hyfforddiant.

Llifoedd gwybodaeth a sicrwydd

- A10 Roedd llai na hanner (42%) yr ymatebwyr i'n harolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth cleifion ar gyfer y maes y maent yn gweithio ynddo. Er bod adborth cleifion yn cael ei rannu gyda wardiau'n fisol, mae angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl staff ar wardiau'n ymwybodol o'r adborth hwn a'i fod yn hygyrch i staff.
- A11 Cyflwynodd y Bwrdd lechyd fformat adrodd newydd (A driphlyg) i wella llif sicrwydd ansawdd. Ond canfuom fod lefelau'r manylder a ddarperir yn yr adroddiadau'n amrywio ychydig. I leihau'r risg y bydd materion ansawdd a diogelwch yn cael eu colli neu'n peidio â chael eu huwchgyfeirio'n gywir dylai'r

Argymhellion

Bwrdd Iechyd ddarparu canllawiau ar gyfer staff ar ddefnyddio'r templed newydd, gan nodi'n enwedig faint o fanylder a ddisgwylir a sut i gytuno pa faterion sy'n cael eu huwchgyfeirio.

Mesurau perfformiad ansawdd a diogelwch cleifion

A12 Er bod y mesurau yn yr adroddiad integredig ar berfformiad yn gyson â fframwaith cyflawni'r GIG, canfuom nad oes mesurau ansawdd y cytunwyd arnynt yn lleol na mesurau ehangach fel ar gyfer gwasanaethau cymunedol. Trwy'r Strategaeth Gwella Ansawdd newydd, dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu mesurau ansawdd cyfredol gyda golwg ar ddatblygu mesurau sy'n adlewyrchu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu ac yn eu comisiynu ar draws gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd.

Adroddiad manwl

Strategaeth sefydliadol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion

- 12 Fe wnaeth ein gwaith ystyried i ba raddau y ceir blaenoriaethau sydd wedi'u diffinio'n glir ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion ac i ba raddau y mae'r risgiau i'w cyflawni'n cael eu lliniaru'n effeithiol.
- 13 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn adeiladu ei ddull strategol o wella ansawdd a'i fod yn rheoli risgiau i ansawdd yn gorfforaethol ac yn weithredol. Ond mae cyfleoedd i wella megis sicrhau bod y Strategaeth Gwella Ansawdd newydd yn cynnwys deilliannau mesuradwy, yn lleihau achosion o bryderon a digwyddiadau ac yn ymateb i'r niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol cynyddol o ganlyniad i'r pandemig.**

Blaenoriaethau o ran ansawdd a diogelwch cleifion

- 14 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull rhagweithiol o ddiweddarau ei Strategaeth Gwella Ansawdd a'r fframwaith ansawdd ategol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i sicrhau bod y strategaeth newydd yn cynnwys deilliannau eglur y gellir eu monitro.**
- 15 Yn 2017, fe gytunodd y Bwrdd ar strategaeth ansawdd a gwella dros dair blynedd, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020. Mae'r strategaeth yn dal i fodoli tra bo'r Bwrdd Iechyd yn datblygu strategaeth newydd. Mae'n nodi pum blaenoriaeth ar gyfer gwella, sef:
 - **Lleihau marwolaethau** – lleihau marwolaethau y gellir eu hosgoi.
 - **Lleihau niwed** – mynd ati'n barhaus i ganfod a lleihau niwed i gleifion.
 - **Gwella dibynadwyedd gofal** – cyflawni'r lefel ddibynadwyedd uchaf ar gyfer gofal clinigol.
 - **Cyflawni'r hyn sydd o'r pwys mwyaf** – gweithio mewn partneriaeth gyda chleifion, gofalwyr a theluoedd i ddiwallu eu holl anghenion a gwella eu bywydau.
 - **Darparu gofal integredig** – darparu gofal arloesol ac integredig yn agos at adref sy'n cefnogi ac yn gwella iechyd, lles a'r gallu i fyw'n annibynnol.
- 16 Cafodd gwaith ar y Strategaeth Gwella Ansawdd newydd ei atal dros dro i alluogi staff i ymateb i bandemig COVID-19. Cafodd ei aildechrau ym mis Ebrill 2021 ond bu oedi pellach. Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl cwblhau'r strategaeth newydd erbyn haf 2022. Er y bu oedi gyda'r strategaeth, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i adolygu a mireinio'i brosesau sicrhau ansawdd a llywodraethu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu, yn datblygu ac yn cysoni cynlluniau a fframweithiau allweddol a fydd yn cefnogi'r Strategaeth Gwella Ansawdd newydd. Bydd y cynlluniau canlynol yn barod i gael eu cymeradwyo'r un pryd â'r strategaeth:
 - Cynllun Diogelwch Cleifion;
 - Cynllun Profiad Cleifion a Gofalwyr;

- Cynllun Effeithiolrwydd Clinigol; a
- Fframwaith Sicrhau Ansawdd.

- 17 Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd cyfyngedig ar Strategaeth Gwella Ansawdd 2017-20. Roedd yn amlygu nifer o faterion megis diffyg cynllun cyflawni, diffyg adroddiadau rheolaidd ar gynnydd a dim lansiad ffurfiol. Fe wnaeth yr adolygiad ddau argymhelliad â blaenoriaeth uchel. Roedd y rhain yn ymwneud â sicrhau trefniadau monitro ac adrodd eglur ar gyfer y Strategaeth Gwella Ansawdd nesaf a sicrhau bod y data ar fyrddau croeso/ansawdd wardiau'n cael ei ddiweddarau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi amcanu at gryfhau ei ddull wrth ddatblygu ei strategaeth newydd. Bydd cynllun cyflawni'n cyd-fynd â'r strategaeth, a hwnnw'n cael ei roi ar waith trwy gynlluniau ansawdd blynyddol is-adrannol a bydd trefniadau llywodraethu integredig newydd y Bwrdd Iechyd (gweler paragraff 67) yn darparu goruchwyliaeth ar gyflawni'r strategaeth. Mae'r strategaeth newydd yn cael ei datblygu gydag ymgysylltu da â rhanddeiliaid mewnol, gan gynnwys staff gweithredol ac ymwneud gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad sy'n helpu i drefnu blaenoriaethau a deilliannau. Mae Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021-22 yn nodi gweledigaeth i ddarparu 'gwasanaethau o ansawdd da, sy'n rhoi gofal diogel, tosturiol ac effeithiol' ond nid yw'n nodi blaenoriaethau gwella ansawdd. Fodd bynnag, ers i'r Cynllun Blynyddol gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu blaenoriaethau ansawdd interim a chymau gweithredu cysylltiedig ar gyfer 2021-22. Cafodd y rhain eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ym mis Tachwedd 2021.
- 18 Pan oedd y pandemig ar ei anterth, nid aeth y Bwrdd Iechyd ati'n ffurfiol i adolygu ei flaenoriaethau ansawdd presennol i adlewyrchu heriau a achoswyd gan COVID-19. Ond yn weithredol fe wnaeth gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol a'r is-adrannau aciwt gryfhau blaenoriaethau presennol i ganolbwyntio ar atal a rheoli heintiau, cynnal gofal llawfeddygol brys, blaenoriaethu clinigol, ac adfer gwasanaethau. Mae heriau a phwysau sylweddol yn wynebu gwasanaethau ar hyn o bryd. O ganlyniad, bydd angen i'r blaenoriaethau gwella ansawdd yn y strategaeth newydd adlewyrchu cyd-destun ailosod ac adfer gwasanaethau a chanlyniadau oedi cyn cael mynediad at wasanaethau sylfaenol, cymunedol ac aciwt (**Argymhelliad 1**). Ceir hefyd ystod o bryderon tra hysbys ynghylch ansawdd mewn meysydd penodol megis gwasanaethau iechyd meddwl a fasgwlaidd, yn ogystal â phryderon cynyddol ynghylch gwasanaethau wroleg. Bydd angen i'r blaenoriaethau ansawdd strategol sicrhau y dysgir o'r materion hyn i atal materion tebyg rhag digwydd yn y dyfodol.
- 19 Yn weithredol, mae gan y tair is-adran aciwt¹ a gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol cysylltiedig flaenoriaethau ansawdd a diogelwch a chynlluniau i'w cyflawni, ond canfuom anghysonderau. Nid yw'r blaenoriaethau ar gyfer dwy o'r is-adrannau aciwt (Ysbyty Gwynedd a Wrecsam Maelor) yn gyson â'r rhai yn y

¹ Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty Gwynedd and Wrexham Maelor Hospital.

Strategaeth Gwella Ansawdd flaenorol. Adlewyrchir hyn yn y gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol. Yn gyffredinol, caiff blaenoriaethau ansawdd ar gyfer yr is-adrannau aciwt a gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol eu hadolygu'n flynyddol, ond canfuom ddulliau anghyson ar gyfer eu hadnabod. Roedd y rhain yn amrywio o fabwysiadu'r blaenoriaethau ansawdd a diogelwch corfforaethol i adolygu safonau cenedlaethol a thargedau Llywodraeth Cymru. Rhoddodd staff nifer o resymau dros y gwahaniaethau, a oedd yn cynnwys blaenoriaethau corfforaethol aneglur tra bo'r strategaeth newydd yn cael ei datblygu a bod rhywfaint o rwydd hynnt i wasanaethau bennu eu blaenoriaethau eu hunain. Er ein bod yn derbyn y bydd y camau gweithredu i gyflawni'r blaenoriaethau wedi'u teilwra i feysydd gwasanaeth unigol, dylai fod cyswllt uniongyrchol â'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn gorfforaethol. Dylai bwriad y Bwrdd lechyd i ddatblygu cynllun cyflawni trosfwaol ar gyfer y strategaeth ansawdd newydd gyda chynlluniau cyflawni is-adrannol ddarparu mecanwaith i gyflawni hyn.

Rheoli risg

- 20 **Mae'r Bwrdd lechyd yn ceisio rheoli risgiau i ansawdd mewn modd gweithredol ac mae'r rhain yn cael sylw yng nghyfarfodydd grwpiau ansawdd is-adrannol, ond ceir anghysonderau yn lefel yr adnoddau gweithredol i gefnogi'r broses o reoli risg ac mae angen hyfforddiant pellach ar gyfer staff.**
- 21 Mae'r Bwrdd lechyd yn gwella'i systemau rheoli risg ac ym mis Hydref 2020 fe lansiodd ei strategaeth a pholisi rheoli risg wedi'u diweddarau. Mae'r polisi, yn briodol, yn cynnwys risgiau clinigol ac anghlinigol ac mae'n disgrifio parodrwydd isel i dderbyn risg mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch ar gyfer cleifion a staff a deilliannau ar gyfer cleifion. Mae Grŵp Rheoli Risg y Bwrdd lechyd yn goruchwyllo trefniadau rheoli risg, gan fynd ati'n benodol i fonitro risgiau ar lefel cyfarwyddiaethau a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol cyn bod y Pwyllgor Archwilio'n craffu arnynt. Mae'r Bwrdd lechyd yn rheoli ei risgiau trwy'r system Datix, ac mae'r broses wedi'i dogfennu'n dda yn ei strategaeth rheoli risg. Mae'r broses rheoli risg newydd yn dal i ymwreiddio; fe arsylwom ni ar aelodau'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn ceisio eglurhad ynghylch y fformat a'r broses reoli ar gyfer y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.
- 22 Yn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2020 fe wnaethom adrodd bod y Bwrdd lechyd wedi cyflwyno trefniadau penodol ar gyfer rheoli risgiau COVID-19 a'r rheiny'n cael eu cefnogi gan hyfforddiant ychwanegol ar gyfer y rhai a oedd yn arwain trefniadau gorchymyn a rheoli a ffrydiau gwaith. Mae risgiau COVID-19 bellach wedi'u hymgorffori yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac yn cael eu rheoli drwyddynt.
- 23 Yn weithredol, mae risgiau'n cael eu hadolygu gan y tîm rheoli gofal eilaidd, is-adrannau aciwt ac ar lefel gwasanaethau, er enghraifft mewn cyfarfodydd ansawdd a diogelwch cleifion. Canfuom fod adnoddau gweithredol ar gyfer rheoli risg yn amrywio. Er enghraifft, mae gan yr holl is-adrannau aciwt a'r rhan fwyaf o wasanaethau llawfeddygol cyffredinol arweinwyr rheoli risg dynodedig (pob un ac

eithrio gwasanaeth llawfeddygol cyffredinol Ysbyty Gwynedd). Ond dim ond yr arweinwyr yn Is-adran Acíwt Ysbyty Gwynedd a Gwasanaeth Llawfeddygol Cyffredinol Wrecsam Maelor sydd ag amser a ddiogelir i gyflawni eu rôl. Mae'r chwe aelod o staff yn y tîm rheoli risg yn rhoi cymorth a hyfforddiant i staff gweithredol er bod capasiti'r tîm wedi'i leihau oherwydd yr angen i ymateb i'r pandemig. Canfuom hefyd anghysonderau yn lefelau'r cymorth corfforaethol a geir a bod angen sicrhau cymorth a hyfforddiant digonol mewn rheoli risg (**Argymhelliad 2**). Roedd y rhai y siaradom ni gyda hwy'n cydnabod ac yn croesawu'r gwelliannau o ran rheoli risg, ond yn teimlo hefyd bod angen gwaith pellach; roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant pellach i staff mewn adnabod risg.

Diwylliant sefydliadol a gwella ansawdd

- 24 Dylai sefydliadau'r GIG fod â ffocws ar fynd ati'n barhaus i wella ansawdd y gofal a defnyddio adnoddau y mae pen draw iddynt i gyflawni deilliannau a phrofiadau gwell ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Fe wnaeth ein gwaith ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn hybu diwylliant sydd â ffocws ar ansawdd a diogelwch cleifion, gan gynnwys gwella'r modd y cydymffurfir â hyfforddiant statudol a gorfodol, yn cyfranogi mewn prosesau gwella ansawdd sy'n rhan annatod o strwythurau llywodraethu ehangach, yn gwrandao a gweithredu ar adborth gan staff a chleifion, ac yn dysgu gwarsi.
- 25 Canfuom fod y **Bwrdd Iechyd yn buddsoddi mewn gwella ansawdd ac yn ceisio sefydlu diwylliant ac ymddygiadau cadarnhaol trwy ei raglen Yn Gryfach Gyda'n Gilydd. Ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd roi ei adnoddau ar waith mewn modd mwy effeithiol a sicrhau ei fod yn dangos gwarsi a ddysgwyd ac effaith o'i weithgareddau.**

Gwella ansawdd

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ysgogi dull da o gryfhau trefniadau gwella ansawdd ond mae angen iddo gynyddu i'r eithaf y gwerth a geir o archwiliadau clinigol ac adolygiadau o farwolaethau.

Adnoddau i roi cymorth i wella ansawdd

- 26 Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu ei adnoddau gwella ansawdd fel rhan o raglen ehangach o newid. Fe sylweddolodd y Bwrdd Iechyd nad oedd y system bresennol o fod â thri tîm gwella ansawdd (Tîm Gwella Ansawdd Nyrsio, Tîm Gwella Ansawdd Meddygol a'r Tîm Gwella Gwasanaethau) yn gweithio'n effeithiol nac yn cael eu defnyddio fel a fwriadwyd; hefyd, roedd nifer uchel o swyddi gwag yn y timau ar y cyd (14.8 Cyfwerth ag Amser Cyflawn). Gan hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o bryd yn sefydlu Tîm Trawsnewid a Gwella. Bydd y tîm hwn, a arweinir gan y Cyfarwyddwr Trawsnewid a Newid, yn canoli swyddogaethau gwella ansawdd, gwella gwasanaethau a'r swyddfa rheoli prosiectau. Bydd y tîm newydd

yn ymgorffori'r swyddogaethau gwella ansawdd blaenorol, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu mewn modd strategol.

- 27 Gwelliant ar Waith yw'r rhaglen hyfforddiant gwella ansawdd genedlaethol ar gyfer staff y GIG yng Nghymru. Fe ddisodlodd Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd (IQT) ym mis Ionawr 2020. Nod y rhaglen yw datblygu gallu i wella ansawdd yn GIG Cymru gan ddefnyddio iaith gyffredin ar gyfer gwella ansawdd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r rhaglen hon yn lleol ac fe gynhelir hyfforddiant trwy gydol y flwyddyn. Staff clinigol sy'n cyflwyno'r rhaglen, ond yn ystod y pandemig maent wedi ei chael yn anodd cael eu rhyddhau o'u dyletswyddau clinigol, er bod yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno'n rhithwir erbyn hyn. O ystyried maint y sefydliad, ychydig iawn o staff y Bwrdd Iechyd sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn; mae cyfanswm o 124 o aelodau o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant arian Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd a, hyd yma, mae 147 o aelodau o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant Gwelliant ar Waith.
- 28 Mae Hyb Gwella Ansawdd y Bwrdd Iechyd ([BCUQI](#)) yn rhwydwaith i gynorthwyo staff i wella ansawdd trwy fynediad at hyfforddiant, gwybodaeth ac adnoddau. Gall staff hefyd gefnogi prosesau Gwella Ansawdd y Bwrdd Iechyd trwy rannu arfer da a gwersi. I gefnogi hyfforddiant, mae BCUQI wedi datblygu cronfa ddata gwella ansawdd. Mae'r gronfa ddata'n galluogi staff i rannu, mabwysiadu a dysgu o brosiectau gwella ansawdd presennol. Fodd bynnag, hysbysodd y Bwrdd Iechyd nad oes llawer o ddefnydd o'r gronfa ddata, o ganlyniad i fod â gwahanol dimau gwella ar draws y sefydliad a dim trosolwg ganolog (**Argymhelliad 3**). Nid yw hyn yn golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan mewn prosiectau gwella ansawdd, er enghraifft mae'n rhedeg cynllun achredu wardiau llwyddiannus ac mae metronau'n cynnal archwiliadau rheolaidd i nodi materion a gwersi ar wardiau.

Archwilio Clinigol

- 29 Mae archwilio clinigol yn ffordd bwysig o ddarparu sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yw'r arweinydd gweithredol ar gyfer archwilio ac effeithiolrwydd clinigol. Mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi archwilio clinigol sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd; fe'i hadolygwyd ddiwethaf ym mis Ionawr 2020. Cafodd y cynllun archwilio clinigol ar gyfer 2021-22 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2021. Cafodd y cynllun, sy'n cwmpasu archwiliadau cenedlaethol (haen 1), corfforaethol (haen 2) a lleol (haen 3), ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad hefyd ym mis Gorffennaf 2021. Er bod y cynllun wedi cael ei gymeradwyo, mae'n dal i fod yn gynllun 'byw' gyda pheth trafodaeth ynghylch pa un a ddylai rhai archwiliadau haen 3 gael eu huwchraddio i haen 2 yn ystod y flwyddyn. Cafodd y rhan fwyaf o weithgarwch archwilio clinigol ei atal dros dro yn ystod y pandemig, gyda gweithgarwch 2020-21 yn cael ei gario ymlaen i'r cynllun archwilio clinigol ar gyfer 2021-22. Yn weithredol, canfuom fod gan yr holl is-adrannau aciwt a gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol raglenni archwilio clinigol, sy'n cwmpasu archwiliadau haen 1-3. Nododd y Bwrdd Iechyd fod gweithgarwch archwilio'n

ailddechrau'n raddol. Gan hynny, mae cyfle i'r Bwrdd lechyd ddatblygu gwaith archwilio clinigol gan ganolbwyntio ar y risg o niwed uniongyrchol neu anuniongyrchol o ganlyniad i'r pandemig (**Argymhelliad 4**).

- 30 Mae Adran Effeithiolrwydd Clinigol y Bwrdd lechyd yn cynorthwyo staff gweithredol i ddylunio a chyflawni archwiliadau sy'n berthnasol i'w hymarfer. Mae hefyd yn cynnig hyfforddiant, er enghraifft mae modiwl e-ddysgu archwilio clinigol wedi bod yn rhedeg am y flwyddyn ddiwethaf ac mae'r tîm yn cynnal caffis rhithwir i gefnogi staff. Mae'r tîm yn cyflogi 6.8 aelod o staff Cyfwerth ag Amser Cyflawn ond ar adeg ein hadolygiad roedd gan y tîm ddwy swydd wag; ar gyfer y Pennaeth Effeithiolrwydd Clinigol, sydd â rhywun yn dirprwyo ar sail interim, ac ar gyfer Hwylusydd Effeithiolrwydd Clinigol. Rydym hefyd yn deall bod yr arweinydd ar gyfer archwilio clinigol yn ymddeol. Gallai hyn greu risg bellach i'r gallu i gyflawni'r cynllun archwilio clinigol yn effeithiol.
- 31 Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod nad yw'r adnodd effeithiolrwydd clinigol yn ddigon mawr i gefnogi archwilio clinigol yn ddigonol ac o ganlyniad mae'r cymorth a gynigir gan y tîm yn amrywiol. Ar gyfer archwiliadau cenedlaethol bydd y tîm yn darparu rheolaeth prosiect ar gyfer yr archwiliad ac yn cyflwyno data pan ofynnir iddo. Ond cyfyngedig yw'r cymorth ar gyfer archwiliadau corfforaethol a lleol, sy'n gyffredinol yn cynnwys prosesu data, peth gwaith dadansoddi a dylunio profformâu. Caiff lefel y cymorth a gynigir ei chytuno gan y Pennaeth Effeithiolrwydd Clinigol fesul achos unigol. Mae'r Bwrdd lechyd yn adolygu'r adnodd hwn ac yn datblygu cynigion i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau presennol o fewn yr adrannau ansawdd ac effeithiolrwydd clinigol.
- 32 Mae'r Adran Effeithiolrwydd Clinigol yn cadw cronfa ddata o archwiliadau clinigol. I wella'r broses, mae'r Bwrdd lechyd yn rhoi system rheoli a thracio archwiliadau clinigol a brynwyd yn ddiweddar ar waith. Bydd y system yn galluogi'r Bwrdd lechyd i gofnodi canfyddiadau archwilio ar haenau 1-3 a monitro camau gweithredu a'r modd y cydymffurfir â chanllawiau clinigol er enghraifft canllawiau gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE). Bydd y system rheoli archwiliadau clinigol newydd yn ei gwneud yn haws nodi gwersi y gellir eu triogli gyda ffynonellau eraill o ran sicrwydd ansawdd. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y cynllun archwilio clinigol yn chwarterol wrth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ac yn flynyddol wrth y Cydbwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ac Archwilio.
- 33 Heblaw am wasanaeth llawfeddygol cyffredinol Glan Clwyd, mae gan yr is-adrannau aciwt a'r gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol systemau i dracio archwiliadau clinigol. Ar hyn o bryd, mae'r systemau papur hyn yn tracio cynnydd o ran cyflawni rhaglenni a chamau gweithredu i fynd i'r afael â chanfyddiadau. Ond mae diffyg cysondeb o ran pa system a ddefnyddir, sef system yr is-adrans/y gwasanaeth, system gorfforaethol, ynteu'r ddwy. Bydd y system rheoli archwiliadau clinigol newydd yn symleiddio ac yn safoni'r broses hon ar lefel weithredol a chorfforaethol.

- 34 Yn gyffredinol, mae canfyddiadau, gwersi ac arfer da o archwiliadau clinigol yn cael eu rhannu a'u trafod. Er enghraifft, mae sicrwydd yn llifo o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad trwy ei is-grŵp Effeithiolrwydd Clinigol a grwpiau effeithiolrwydd clinigol yr is-adrannau aciwt a'r Tîm Gweithredol Gofal Eilaidd. Caiff canfyddiadau eu trafod ar lefel safleoedd a gwasanaethau er enghraifft trwy gyfarfodydd metronau a rheolwyr. Fodd bynnag, mae gwasanaethau'n wynebu pwysau gweithredol a all effeithio ar ansawdd a deilliannau. Felly dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau'r modd y mae'n defnyddio cudd-wybodaeth archwilio clinigol at ddibenion sicrwydd.

Adolygiadau o farwolaethau

- 35 Mae cyfarfodydd adolygu marwolaethau'n darparu dull systematig ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid o farwolaethau cleifion i fyfyrion, dysgu a gwella gofal ar gyfer cleifion. Mae'r Bwrdd lechyd yn cymryd camau i wella adolygiadau o farwolaethau. Ym mis Hydref 2021, fe benododd Arweinydd Marwolaethau Clinigol i arwain ar wella systemau a phrosesau ac ar glirio ôl-groniad y Bwrdd lechyd o adolygiadau o farwolaethau ar gam 2.
- 36 Mae adolygiadau o farwolaethau'n cael eu cynnwys yn rheolaidd ar agenda'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, ond nid yw adroddiadau'n cael eu darparu'n amserol. Yn 2020-21, dim ond adroddiadau adolygu marwolaethau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2020 a gafodd y pwyllgor. Hefyd, cafodd adroddiad ar wahân a oedd yn nodi cyfraddau marwolaethau COVID-19 rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2021. Hyd yma, yn 2021-22, dim ond yr adroddiad blynyddol adolygu marwolaethau ar gyfer 2020 y mae'r pwyllgor wedi'i gael, a hwnnw'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2020. Er bod y pandemig wedi tarfu ar adolygiadau o farwolaethau, dylai'r Bwrdd lechyd fod yn dychwelyd at adroddiadau rheolaidd ac fel rhan o'r drefn arferol. Ar gyfer sicrwydd parhaus, dylai'r pwyllgor gael adroddiadau adolygu marwolaethau bob chwarter, a'r rheiny'n amlygu gwersi a chamau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad (**Argymhelliad 5**).
- 37 Yn weithredol, mae gan bob un o'r tair is-adran aciwt a gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol raglen o gyfarfodydd adolygu marwolaethau. Trafodir y canfyddiadau yn y grwpiau effeithiolrwydd clinigol, a adlewyrchir ar lefelau is-adrannol, gofal eilaidd ac is-grwpiau'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Yn ystod y pandemig, er bod y gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol wedi parhau i gynnal cyfarfodydd adolygu marwolaethau, nid felly yr oedd hi gyda'r holl is-adrannau aciwt. Mae cyfarfodydd adolygu wedi cael eu hadfer ers hynny. Yn gyffredinol, caiff y cyfarfodydd adolygu eu harwain gan staff meddygol ond o'n cyfweiliadau ni mae awydd i wneud y rhain yn adolygiadau amlddisgyblaethol (**Argymhelliad 6**).
- 38 Caiff arfer da a gwersi o adolygiadau o farwolaethau eu rhannu trwy nifer o lwybrau. Er enghraifft, trwy e-bost wythnosol y cyfarwyddwyr meddygol, papurau briffio adrannol, cyfarfodydd ansawdd a diogelwch ac mewn cynadleddau clinigol. Ond mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod nad oes ganddo broses eto i rannu gwersi

ar draws safleoedd mewn modd systematig (**Argymhelliad 7**). Nid yw hyn yn unigryw i adolygiadau o farwolaethau. Roedd y rhai y cyfwelom ni â hwy'n teimlo y gellid cywain mwy o wersi o adolygiadau o farwolaethau, a hwythau'n teimlo, gan bod gan y Bwrdd lechyd ôl-groniad o adolygiadau o farwolaethau ar gam 2, a achoswyd gan COVID-19, bod pwyslais ar 'eu cwblhau' a llai o ffocws ar ddeall y gwersi. Er gwaethaf y materion gydag amseroldeb adroddiadau adolygu marwolaethau a grybwyllwyd yn gynharach, mae'r Bwrdd lechyd yn dechrau gwella'i drefn adrodd ar adolygiadau o farwolaethau mewn perthynas â gwersi a champau gwella, y gellir eu rhannu trwy grwpiau effeithiolrwydd clinigol. Roedd themâu a amlygwyd yn adroddiad blynyddol 2020 yn cynnwys ail lofnodion coll ar waith papur Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol a chyflwr nodiadau achosion.

Gwerthoedd ac ymddygiad

- 39 **Mae'r Bwrdd lechyd yn defnyddio'i ddull sefydliadol 'Yn Gryfach Gyda'n Gilydd' i wella gwerthoedd ac ymddygiad, ond mae cyfleoedd i wella.**
- 40 Mae'r Bwrdd lechyd yn dechrau ar raglen datblygu sefydliadol fawr o'r enw Yn Gryfach Gyda'n Gilydd, sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd, cynhyrchiant ac ymgysylltiad. Elfen ganolog o'r rhaglen yw gwella diwylliant y sefydliad trwy sicrhau bod yr ymddygiadau, strwythurau a phrosesau cywir yn eu lle. Fe barodd y 'cam darganfod' o Yn Gryfach Gyda'n Gilydd, a oedd yn cynnwys ymgysylltu â staff, am dri mis, gan ddod i ben ym mis Hydref 2021.
- 41 Datgelodd ein gwaith ddarlun cymysg o ran y diwylliant mewn perthynas â hysbysu ynghylch gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol a chodi pryderon. O'r staff a gwblhaodd ein harolwg², roedd 77% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn annog staff i hysbysu ynghylch gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol. Roedd ychydig dros hanner (55%) yr ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod staff a fu'n gysylltiedig â gwall, digwyddiad trwch blewyn neu ddigwyddiad gwirioneddol yn cael eu trin yn deg gan y sefydliad. Roedd dwy ran o dair (65%) o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn gweithredu i sicrhau nad yw gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol yn digwydd eto.
- 42 Anogir staff i hysbysu ynghylch digwyddiadau, ac ar adeg ein hadolygiad ni roedd y Bwrdd lechyd newydd sefydlu panel digwyddiadau difrifol newydd. Caiff y panel, sy'n cael ei gadeirio ar y cyd rhwng y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio a'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, ei gynnull o fewn 24 awr i ddigwyddiad difrifol

² Fe wnaethom wahodd staff gweithredol sy'n gweithio ar draws gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol i gymryd rhan yn ein harolwg ar-lein o agweddau ynglŷn â threfniadau ansawdd a diogelwch cleifion. Fe roddodd y Bwrdd lechyd gyhoeddusrwydd i'r arolwg ar ein rhan. Er bod y canfyddiadau'n annhebygol o gynrychioli barn yr holl staff ar draws gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol, rydym wedi eu defnyddio i enghreifftio materion penodol. Fe ymatebodd 164 o aelodau o staff llawfeddygaeth gyffredinol i'n harolwg.

ac fe gynhelir adolygiad cyflym gyda'r tîm dan sylw. Ar y cyfan, mae'r adolygiad cyflym yn broses gefnogol i roi cymorth i ddysgu, yr oedd staff gweithredol yn gadarnhaol yn ei gylch. Ond dim ond pan hybir diwylliant o drafodaeth onest, agored y mae'r broses hon yn gweithio'n dda. O'r staff a ymatebodd i'n harolwg, dim ond traean (32%) oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod cyfathrebu rhwng uwch reolwyr a staff yn effeithiol. Caiff gwersi o gwynion a digwyddiadau eu lledaenu mewn nifer o ffyrdd megis mewn cyfarfodydd gweithio i wella, cyfarfodydd adolygu marwolaethau a chyfarfodydd rheolwyr wardiau. Ond fel a amlygwyd yn gynharach, er bod y Bwrdd Iechyd yn rhannu gwersi'n lleol, nid oes ganddo ffordd systematig o rannu gwersi ar draws safleoedd a gwasanaethau eto.

- 43 Soniodd staff a ymatebodd i arolwg staff diweddar GIG Cymru³ am eu profiadau o fwlio, aflonyddu, neu gael eu cam-drin gan reolwr llinell (12%) neu aelod o'r cyhoedd (16%) neu gydweithiwr (21%) dros y flwyddyn ddiwethaf. O ystyried cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi profi'r ymddygiad hwn byddem yn disgwyl i'r Bwrdd Iechyd fod wedi cymryd camau gweithredu pan ddigwyddodd. Ond roedd llai na hanner (37.9%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn cymryd camau gweithredu effeithiol pan fo'n digwydd (**Argymhelliad 8**), gan ddynodi'r angen i gryfhau'r ffocws ar y maes pwysig hwn.
- 44 Mae gan yr holl staff fynediad at y system Datix i hysbysu ynghylch digwyddiadau gwirioneddol a digwyddiadau trwch blewyn. Mae staff mewn is-adrannau aciwt yn cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r system i hysbysu ynghylch pryderon a digwyddiadau trwch blewyn. Fodd bynnag, effeithiwyd ar hyfforddiant gan COVID-19 a'r gwaith yr oedd ei angen i baratoi ar gyfer y system Datix Cymru Gyfan newydd a aeth yn fyw ym mis Gorffennaf 2021. Mae hyn wedi effeithio ar gapasiti'r tîm Datix i hyfforddi er bod hyfforddiant a chymorth rhithwir ar gael.
- 45 Mae hyfforddiant statudol a gorfodol yn bwysig i sicrhau diogelwch a lles staff a chleifion. Ym mis Gorffennaf 2021, roedd cyfradd cydymffurfio'r Bwrdd Iechyd â hyfforddiant gorfodol yn 83.39%, sy'n agos at y targed o 85% ac yn un o'r cyfraddau cydymffurfio uchaf yng Nghymru. Er bod y gyfradd cydymffurfio'n gadarnhaol, o'r staff llawfeddygaeth gyffredinol a ymatebodd i'n harolwg ni, dim ond 32% oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod ganddynt ddigon o amser yn y gwaith i gwblhau unrhyw hyfforddiant statudol a gorfodol. Er bod timau gweithredol yn dyrannu amser i staff gwblhau hyfforddiant, dylai timau sicrhau y caniateir digon o amser.
- 46 Mae Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Personol (PADR) yn drafodaeth ddwyffordd sy'n helpu staff i ddeall beth ddisgwylir ganddynt yn eu rôl ac ymgysylltu'n fwy a chymryd cyfrifoldeb am eu perfformiad a'u datblygiad eu hunain. Mae cyfraddau PADR y Bwrdd Iechyd wedi gostwng ychydig ers y pandemig. Ym mis Gorffennaf 2021, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd 69.4% yn erbyn targed o 85%. Mae'r Bwrdd

³ Fe wnaeth arolwg staff GIG Cymru redeg am dair wythnos ym mis Tachwedd 2020 ar yr un pryd â'r ail ymchwydd mewn trosglwyddiadau COVID-19 a chynnydd yn y niferoedd a oedd yn cael eu derbyn i'r ysbty. 18% oedd y gyfradd ymateb ar gyfer yr arolwg.

lechyd yn bwriadu gwella cyfraddau cydymffurfio trwy gyfathrebiadau a theilwra cymorth i feysydd â chyfraddau cydymffurfio arbennig o isel.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

- 47 **Mae gan y Bwrdd lechyd ddull da o wrando ar adborth a dysgu ohono, y mae'n ceisio'i gryfhau ymhellach. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau yr eir ati'n gyson i driongli gwersi, eu rhannu, gweithredu arnynt a'u sefydlu, a bod yr holl staff yn cael eu hysbysu ynghylch adborth.**

Profiad Cleifion

- 48 Mae Strategaeth Profiad Cleifion a Defnyddwyr y Bwrdd lechyd (2019-22), sy'n nodi sut y mae'n casglu ac yn defnyddio adborth gan gleifion a defnyddwyr, wrthi'n cael ei hadolygu. Bydd y strategaeth wedi'i hailddatblygu, sef y Cynllun Strategol Profiad Cleifion a Gofalwyr fel y'i gelwir, yn ategu'r Strategaeth Gwella Ansawdd newydd. Mae'r Bwrdd lechyd yn disgwyl i'r cynllun newydd gael ei gwblhau erbyn haf 2022.
- 49 Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cael adroddiad chwarterol ar Brofiad Cleifion a Gofalwyr, sy'n cwmpasu perfformiad mewn perthynas â chwynion, achosion yr Ombwdsmon a diweddariad ar adborth cleifion. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwersi a ddysgwyd, themâu sy'n dod i'r amlwg a chamau cywirol a gymerwyd. Mae'r pwyllgor hefyd yn cael adroddiad sicrwydd gan ei is-grŵp Profiad Cleifion a Gofalwyr, a gyflwynir yn fformat adroddiadau 'A driphlyg' y Bwrdd lechyd. Mae bwletin ansawdd wythnosol y Tîm Gweithredol hefyd yn cynnwys manylion lefel uchel am gwynion, digwyddiadau difrifol a digwyddiadau byth.
- 50 Mae gan Dîm Profiad Cleifion y Bwrdd lechyd 17.8 o aelodau o staff Cyfwerth ag Amser Cyflawn ac mae'n cynorthwyo gwasanaethau i gofnodi adborth. Mae gan y Bwrdd lechyd Wasanaeth Cymorth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) hefyd sy'n hwyluso adborth gan gleifion a gofalwyr gyda golwg ar ddatrysiad cynnar. Ceir tri swyddog PALS ar gyfer pob ardal. Mae swyddogion PALS yn cwrdd fel tîm i rannu gwersi a phrofiad ond maent hefyd yn cwrdd â'r Tîm Profiad Cleifion ehangach, felly nid ydynt yn gweithio ar wahân. I wella'r adnodd profiad cleifion ymhellach a meithrin arbenigedd drwy'r sefydliad i gyd, mae'r Bwrdd lechyd yn recriwtio 100 o hyrwyddwyr profiad cleifion. Bydd yr hyrwyddwyr yn dîm o wirfoddolwyr amlddisgyblaethol o blith staff sy'n gweithio ym mhob tîm clinigol. Bydd y fenter yn cynyddu amlygrwydd gweithgareddau profiad cleifion a pherchnogaeth arnynt ar lefel wardiau. Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Profiad Cleifion yn adrodd wrth yr is-adrannau aciwt, sy'n adrodd yn uniongyrchol wrth is-grŵp Profiad Cleifion a Gofalwyr y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ar faterion profiad cleifion. Mae hyn yn golygu bod y broses adrodd yn osgoi'r strwythur rheoli gofal eilaidd a'r Tîm Gweithredol. Bydd hyn yn cael ei wella'n arw wrth i strwythur llywodraethu newydd y Bwrdd lechyd ddechrau ymwreiddio (gweler paragraff 67).

- 51 Mae gan y Bwrdd lechyd adnoddau da ar gyfer rheoli cwynion a phryderon yn unol â'r broses Gweithio i Wella. Ceir 29 aelod o staff Cyfwerth ag Amser Cyflawn yn y tîm ymdrin â chwynion. Ym mis Mai 2021, fe gyflwynodd y Bwrdd lechyd broses newydd ar gyfer ymdrin â chwynion, sydd â mwy o ffocws ar ddatrys yn gynnar. Mae'r tîm cwynion canolog yn derbyn ac yn logio cwynion cyn eu hanfon ymlaen at y ward berthnasol neu'r gwasanaeth perthnasol i gael eu datrys. Mae'r swyddogion PALS yn ganolog i'r broses newydd. Pan gyfwelom ni â staff, dim ond am bythefnos yr oedd y broses gwynion newydd wedi bod yn ei lle. Canfuom fod staff yn gefnogol i'r broses newydd ac yn addasu i'w defnydd. Fodd bynnag, codwyd pryderon bod y broses mynd â llawer o amser nyrsys arweiniol. Yn gyffredinol nid oedd timau is-adrannol yn gwybod pa gyfran o staff oedd wedi cael eu hyfforddi i ymchwilio i gwynion, digwyddiadau, ac i ddadansoddi achosion sylfaenol (**Argymhelliad 9**). Roedd y mwyafrif (70%) o staff llawfeddygaeth gyffredinol a ymatebodd i'n harolwg yn cytuno bod y Bwrdd lechyd yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion. Ym mis Medi 2021, fe ymatebwyd i 65.93% o gwynion o fewn 30 diwrnod, sydd islaw targed Llywodraeth Cymru, sef 75%. Ond mae nifer y datrysiadau cynnar wedi cynyddu ers cyflwyno'r system newydd ar gyfer ymdrin â chwynion.
- 52 Mae'r Strategaeth Profiad Cleifion yn gosod targed blynyddol i gofnodi 20% o brofiad cleifion/gofalwyr/defnyddwyr. Mae'n hawdd deall bod COVID-19 wedi achosi cwmp sylweddol yn yr adborth gan gleifion ac nid oedd y targed wedi cael ei fesur am 12 mis; fodd bynnag, cyn y pandemig nid oedd y targed yn cael ei gyrraedd. Ym mis Gorffennaf 2021, bu'r Bwrdd lechyd yn llwyddiannus wrth roi cam un System Adborth Cleifion Unwaith i Gymru CIVICA ar waith. Nod y gwasanaeth newydd yw cefnogi adborth mewn amser real gan gleifion a defnyddwyr gwasanaethau, gan ei gwneud yn haws i'r Bwrdd lechyd gyrraedd ei darged.
- 53 Mae timau gweithredol yn ceisio adborth cleifion a staff mewn nifer o ffyrdd, megis cardiau sylwadau ar safleoedd, arolygon bodlonrwydd cleifion drwy'r post ac ar-lein a chleifion yn siarad yn uniongyrchol gyda metronau. Ym mis Ebrill 2020, rhoddodd y Bwrdd lechyd y gorau i ddefnyddio ciosgau adborth cwsmeriaid 'hapus neu beidio' i roi cymorth i atal a rheoli heintiau, ond mae cyfrifiaduron llechi'n dal i gefnogi adborth digidol. Yn ogystal â chydweithio'n agos gyda'r tîm cwynion, mae swyddogion PALS yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu ledled y gymuned a wardiau aciwt i roi'r cyfle i gleifion a gofalwyr drafod eu pryderon. Fe barhaodd y digwyddiadau hyn o'r enw Rhannu Pryder (Care to Share) yn ystod y pandemig ond roeddent yn llai mynych, yn cael eu cynnal yn rhithwir ac yn targedu meysydd lle'r oedd pryderon. Er bod adborth cleifion yn cael ei rannu gyda wardiau'n fisol, mae ein harolwg ni o staff llawfeddygaeth gyffredinol yn dynodi bod angen gwneud mwy i ledaenu gwybodaeth am brofiad cleifion o ystyried bod llai na hanner (42%) yr ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth cleifion ar gyfer y maes y maent yn gweithio ynddo (**Argymhelliad 10**).

Gwrando ar staff

- 54 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i wrando ar staff er mwyn iddo allu dysgu o'u profiadau a'u pryderon. Ond roedd llai na hanner (45%) y staff a ymatebodd i'n harolwg ni'n cytuno bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan staff.
- 55 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd adolygu ei broses codi pryderon ac ym mis Ebrill 2021, fe lansiodd ei broses Dweud Eich Dweud yn Ddiogel (Speak Out Safely). Mae'r broses newydd yn cynnig sawl ffordd i staff godi pryderon yn gyfrinachol. Er enghraifft, gall staff siarad gyda gwarcheidwad neu hyrwyddwr Dweud Eich Dweud yn Ddiogel, codi pryderon yn ddiennw trwy lwyfan o'r enw Gweithio'n Gysurus (Work in Confidence) a mynd at eu rheolwyr a chynrychiolwyr undebau llafur. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i roi'r polisi ar waith yn llawn, er enghraifft mae dau Warcheidwad Dweud Eich Dweud yn Ddiogel wedi cael eu recriwtio'n ddiweddar ac mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu recriwtio hyrwyddwyr Dweud Eich Dweud yn Ddiogel sy'n gweithio'n lleol.

Storïau cleifion

- 56 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella cyrhaeddiad storïau cleifion. Er bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad wedi bod yn cael storïau yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd ers mis Mawrth 2019, dim ond yn ddiweddar y mae'r Bwrdd wedi dechrau eu cael (Medi 2021). Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau hefyd i storïau gael eu cynnwys yng nghyfarfodydd y tîm gweithredol.
- 57 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wrthi'n gwella'r ffordd y caiff storïau cleifion eu hadrodd a'u trefnu. Ers mis Mai 2021, mae aelodau'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn gwranddo ar y stori ymlaen llaw ac mae papur sy'n cyd-fynd â'r eitem yn amlinellu'r themâu sy'n dod i'r amlwg, pwyntiau dysgu a gwelliannau a awgrymir i wasanaethau, y mae aelodau'n eu trafod. Mae hyn yn ddefnydd mwy cynhyrchiol o amser y pwyllgor. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu trefnu bod y recordiadau hyn ar gael i'r cyhoedd o ddechrau 2022. Ar hyn o bryd, caiff storïau cleifion eu dewis ar hap, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu amserlen 12 mis ac mae ganddo uchelgeisiau i alinio storïau â themâu o gwynion a digwyddiadau. Gan y bydd y rhan fwyaf o storïau cleifion yn ddigidol mae'r Bwrdd Iechyd yn buddsoddi mewn offer adrodd storïau digidol ac yn hyfforddi staff i'w ddefnyddio. Mae cynlluniau hefyd i ddatblygu llyfrgell o storïau i'w defnyddio at ddibenion hyfforddiant.

Ymweliadau Diogelwch Cleifion

- 58 Fel gyda chyrff iechyd eraill, bu'n rhaid atal ymweliadau diogelwch gan aelodau gweithredol ac annibynnol yn ystod y pandemig. Cyn hyn, roedd ymweliadau'n ad hoc o ran eu natur ac nid oedd adborth yn cael ei goladu mewn ffordd strwythuredig. Roedd staff y siaradom ni gyda hwy'n teimlo, heblaw am y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio, nad oedd aelodau'r Bwrdd yn weladwy. Yn gadarnhaol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod y gwendidau hyn ac ym mis Gorffennaf 2021 fe lansiodd ei Ymweliadau

Ansawdd a Diogelwch newydd. Mae gweithdrefn weithredu safonol yn darparu eglurder ynghylch y broses, yn nodi'r mynychder disgwylidig, yn sicrhau bod yr holl feysydd gwasanaeth yn cael eu cynnwys ac mae templedi'n safoni'r modd y caiff adborth ei gofnodi a'r modd yr adroddir arno. Caiff unrhyw gamau gweithredu a nodir yn ystod ymweliadau eu cofnodi a'u monitro trwy Datix. Cafodd y Grŵp Diogelwch ac Ansawdd Cleifion ei adroddiad chwarterol cyntaf ar ymweliadau diogelwch cleifion ym mis Hydref 2021. Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021, roedd wyth ymweliad wedi bod ac 14 o gamau gwella wedi cael eu cofnodi. Fe wnaeth yr ymweliadau gwmpasu ystod o wasanaethau ac ysbytai gan gynnwys yr adran cleifion allanol yn Ysbyty Gwynedd, y gwasanaeth fferylliaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ac Uned Llygaid Stanley yn Ysbyty Abergele. Dylai hyn fynd gryn dipyn o'r ffordd tuag at wella amlygrwydd aelodau'r Bwrdd a throngli gwersi ymhellach.


Strwythurau a phrosesau llywodraethu

- 59 Fe wnaeth ein gwaith ystyried i ba raddau y mae strwythurau a phrosesau sefydliadol ar ac islaw lefel y bwrdd o gymorth i ddarparu gwasanaethau sydd o ansawdd da ac yn effeithiol.
- 60 Canfuom fod **gwaith da'n mynd rhagddo i gryfhau trefniadau llywodraethu ansawdd a diogelwch corfforaethol a gweithredol ac er bod gan y Bwrdd lechyd lefel dda o adnoddau i gefnogi prosesau llywodraethu ansawdd mae'n cymryd camau gweithredu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.**

Dyluniad sefydliadol i gefnogi llywodraethu effeithiol

- 61 **Mae newidiadau parhaus i drefniadau llywodraethu ansawdd wedi'u bwriadu i gefnogi atebolrwydd integredig ac ar y cyd am drefniadau ansawdd.**
- 62 Mae gan y Bwrdd lechyd strwythur sefydliadol cymhleth ac iddo sawl haen, sy'n gallu gwneud llinellau atebolrwydd yn anodd i'w deall, yn enwedig ar lefel weithredol. I brofi'r safbwynt 'o'r llawr i'r bwrdd', fe wnaeth yr adolygiad hwn archwilio'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol, gan hynny mae **Arddangosyn 2** yn dangos y strwythur sefydliadol cyfredol ar gyfer gwasanaethau aciwt. Mae gan y Bwrdd lechyd strwythur yr un mor gymhleth ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol. Fodd bynnag, ers ein gwaith maes mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu model gweithredu newydd ac mae wrthi'n ei roi ar waith ar hyn o bryd (gweler paragraff 66).

Arddangosyn 2: Strwythur sefydliadol cyfredol ar gyfer gwasanaethau aciwt



Ffynhonnell yr Arddangosyn: Dadansoddiad Archwilio Cymru o strwythur sefydliadol y Bwrdd Iechyd

- 63 Y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrzio a Bydwreigiaeth yw'r arweinydd penodol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion. Ond caiff y cyfrifoldeb o ddydd i ddydd ei rannu gyda'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd. Islaw'r tîm gweithredol mae'r strwythur gofal eilaidd, sydd â Chyfarwyddwr Nyrzio a Chyfarwyddwr Meddygol. Ar safleoedd ysbytai ac ym mhob 'Ardal' gymunedol, mae'r cyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch cleifion yn adlewyrchu'r trefniant corfforaethol. Mae nyrsys arweiniol ar safleoedd neu mewn gwasanaethau a chyfarwyddwyr meddygol neu arweinwyr clinigol yn cydberchnogi ansawdd a diogelwch cleifion. Mae adborth gan y gwasanaethau'n awgrymu bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda.
- 64 Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad wedi dechrau gwella'i strwythur llywodraethu ansawdd i wella systemau sicrwydd. Ym mis Awst 2020, rhoddodd y pwyllgor gymeradwyaeth i sefydlu pedwar is-grŵp newydd:
- Diogelwch Cleifion ac Ansawdd
 - Effeithiolrwydd Clinigol

- Profiad Cleifion a Gofalwyr
- Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Strategol

- 65 Mae gan bob un o'r is-grwpiau gylch gorchwyl ac maent wedi bod yn cwrdd ers mis Hydref 2020, er bod rhai cyfarfodydd wedi cael eu canslo oherwydd COVID-19. Ym mis Ebrill 2021, fe arsylwom ni ar un o gyfarfodydd y grŵp Ansawdd a Diogelwch Cleifion. Roedd yn amlwg bod y grŵp wrthi'n cael ei sefydlu o hyd; er enghraifft, dim ond unwaith neu ddwy yr oedd rhai o'r grwpiau a oedd yn adrodd wrth yr is-grŵp wedi cwrdd. Nid oedd rhai agweddau ar weinyddiaeth yr is-grŵp wedi'u trefnu'n dda, er enghraifft roedd y log gweithredu wedi'i gwblhau'n rhannol, a oedd yn golygu bod yr eitem 5 munud wedi cymryd 40 munud. Mae agenda'r cyfarfod misol yn drwm iawn. Mae'n cael adroddiadau sicrwydd gan ei is-grwpiau; mae'r rhain yn cynnwys is-grwpiau atal a rheoli heintiau, cyfarpar diogelu personol a meddyginiaethau diogelach. Mae hefyd yn cael adroddiadau o'r haen gofal eilaidd, y tair is-adran aciwt, gwasanaethau menywod ac iechyd meddwl ac anabledau dysgu. Nododd y Bwrdd Iechyd fod is-grwpiau'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad wedi dechrau setlo ers hynny. Yn y dyfodol, bydd y pedwar is-grŵp yn adrodd yn ffurfiol wrth y Grŵp Cyflawni Gweithredol newydd ar gyfer Ansawdd fel rhan o'r fframwaith llywodraethu integredig newydd.
- 66 Yn ogystal â'r pwysau parhaus ar wasanaethau a achoswyd gan y pandemig, mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd trwy gyfnod o newid. Mae'n cydnabod bod ei strwythur cyfredol yn rhy gymhleth gan wneud goruchwyliaeth a llif gwybodaeth yn anodd. Gan hynny, mae Yn Gryfach Gyda'n Gilydd, rhaglen datblygu sefydliadol y Bwrdd Iechyd, wedi datblygu model gweithredu newydd. Mae'r model newydd yn symud tuag at gymunedau iechyd integredig a rhai gwasanaethau rhanbarthol ledled Gogledd Cymru gyfan. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o bryd yn rhoi'r strwythurau newydd ar waith ac mae'n amcanu at fod â ffurf gysgodol yn weithredol o 1 Ebrill 2022.
- 67 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn dechrau rhoi ei fframwaith llywodraethu integredig newydd ar waith, a hwnnw wedi cael ei gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2021. Un o nodau'r fframwaith newydd yw galluogi ffocws mwy eglur ar oruchwyliaeth o'r llawr i'r Bwrdd ar ansawdd gwasanaethau. Bydd y strwythur newydd yn golygu sefydlu tri grŵp cyflawni gweithredol, y mae un ohonynt yn canolbwyntio ar wella ansawdd. Yn adrodd wrth y grwpiau cyflawni gweithredol bydd 10 o grwpiau cyflawni tactegol, y mae pedwar ohonynt yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch cleifion, sef: grwpiau diogelwch cleifion, profiad cleifion, effeithiolrwydd clinigol ac atal a rheoli heintiau. I helpu i wneud llinellau adrodd yn glir bydd y grwpiau cyflawni tactegol yn cael eu hadlewyrchu ar lefel weithredol. Bydd y rhain yn disodli ac yn safoni'r cyfarfodydd ansawdd a diogelwch ac effeithiolrwydd clinigol cyfredol ar lefel is-adrannau a gwasanaethau ac yn gwella eglurder llinellau gwelededd. Mae adolygiad tebyg o lywodraethu ar y gweill ar gyfer timau is-adrannol. O ran y sefyllfa ym mis Chwefror 2022, roedd y grwpiau cyflawni gweithredol newydd wedi cynnal neu ar fin cynnal eu cyfarfodydd cyntaf.

68 I gynorthwyo gyda llif sicrwydd mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad hefyd wedi cymeradwyo'r model adrodd 'A driphlyg', sy'n hidlo sicrwydd o dimau gweithredol i fyny i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Ond roedd rhai cyfweleion yn teimlo bod angen canllawiau wrth gyflwyno'r templed, gan bod lefel y manylder a ddarperir yn gallu amrywio (**Argymhelliad 11**). Heb ganllawiau ceir risg y bydd materion ansawdd a diogelwch yn cael eu colli neu na fyddant yn cael eu huwchgwyfeirio'n gywir. Mae ar y Bwrdd lechyd angen sicrwydd bod yr wybodaeth gywir yn cael ei hidlo i fyny.

Adnoddau ac arbenigedd i gefnogi trefniadau llywodraethu ansawdd

- 69 **Mae gan y Bwrdd lechyd lefel dda o adnoddau corfforaethol a gweithredol i gefnogi trefniadau llywodraethu ansawdd, ond ceir anghysonderau yn lefelau'r adnoddau ar draws y sefydliad, a phryderon nad yw adnoddau presennol yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial. Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.**
- 70 Yn gorfforaethol, mae'r Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro ar gyfer Sicrwydd yn rheoli tri phennaeth gwasanaeth sy'n cwmpasu sicrwydd ansawdd, profiad cleifion a diogelwch cleifion. Gyda'i gilydd mae'r tîm yn rhoi lefel dda o gymorth ar gyfer llywodraethu ansawdd a diogelwch a phrofiad cleifion. Ar draws y sefydliad mae oddeutu 130 o aelodau o staff yn cefnogi trefniadau sicrhau ansawdd. Mae staff yn gyffredinol wedi'u lleoli mewn meysydd gwasanaeth penodol, gyda rhai'n adnodd corfforaethol ac eraill yn adnoddau lleol. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cydnabod y gall trefniadau presennol arwain at weithio mewn seilos a dyblygu ac mae'n adolygu ei adnoddau a sut y cânt eu trefnu. Mae'r Bwrdd lechyd yn y broses o roi model partner busnes ar waith lle byddai staff yn rhan o dîm corfforaethol ond yn dal i fod wedi'u lleoli yn eu hardaloedd. Nod y model hwn yw ysgogi cysondeb, ei gwneud yn haws i rannu arfer da a gwersi a lleihau achosion o ddyblygu a gweithio mewn seilos. Mae adolygiad ehangach o strwythurau llywodraethu is-adrannol yn mynd rhagddo hefyd a fydd yn dwyn mwy o eglurder i rolau a strwythurau.
- 71 Mae gan bob un o'r tri safle aciwt nyrsys arweiniol llywodraethu ansawdd, sy'n aelodau o'r tîm diogelwch cleifion corfforaethol ac yn gweithio ar draws timau clinigol. Fe'u cefnogir gan dîm o wyth i ddeg aelod o staff. Fodd bynnag, mae'r canfyddiad am y cymorth hwn yn amrywio ar draws y sefydliad. Er enghraifft, yn ein harolwg casglu data⁴, dywedodd pob un o'r tair is-adran aciwt fod ganddynt arweinydd ansawdd a diogelwch cleifion pwrpasol, ond dim ond Is-adran Acíwt Ysbyty Glan Clwyd ddywedodd fod yr arweinydd yn rhan o'r tîm corfforaethol. Ar gyfer llawfeddygaeth gyffredinol, dim ond Ysbyty Gwynedd ddywedodd nad oedd ganddynt arweinydd ansawdd pwrpasol. Mae'r amrywiad hwn yn awgrymu nad yw'r adnodd yn cael ei drefnu na'i gydnabod yn dda, gan achosi annhegwch ar

⁴ Fe ofynnem ni i'r Bwrdd lechyd gwblhau arolygon casglu data a oedd yn casglu gwybodaeth am adnoddau corfforaethol i gefnogi ansawdd a diogelwch cleifion a threfniadau llywodraethu ansawdd ar gyfer yr is-adrannau aciwt a gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol.

draws y sefydliad, yn ogystal ag effeithio ar allu timau i reoli'r broses gwella ansawdd yn gyson a darparu'r sicrwydd sy'n ofynnol ar gyfer y Bwrdd a'i bwyllgorau. Ar y cyfan, mae gan y Bwrdd lechyd lefel dda o gapasiti llywodraethu ansawdd, ond mae angen iddo sicrhau bod yr adolygiad y mae wedi'i gynnal yn arwain at ddefnyddio'r adnoddau hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.

Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd

- 72 Fe wnaeth ein gwaith ystyried a yw trefniadau ar gyfer monitro perfformiad ac adrodd arno ar lefel weithredol a strategol yn darparu ffocws digonol ar ansawdd a diogelwch cleifion.
- 73 Canfuom fod **y Bwrdd lechyd yn addasu ac yn gwella'i drefniadau monitro ac adrodd, gan gydnabod her COVID-19 a risgiau ehangach i ansawdd.**

Gwybodaeth ar gyfer craffu a sicrwydd

- 74 **Mae'r Bwrdd yn cael lefel dda o wybodaeth i graffu ar niwed o COVID-19. Mae'r Bwrdd lechyd yn cymryd camau i wella ddangosfyrddau ansawdd, ond mae angen gwaith pellach i sicrhau bod dull mwy cyson yn cael ei fabwysiadu ar draws y sefydliad ac i gryfhau capasiti dadansoddi data gweithredol.**
- 75 Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud ymrwymiad i asesu niwed o COVID-19 yn seiliedig ar y model pedwar cwadrant niwed⁵ ac mae wedi sicrhau yr adroddir yn eang ar wybodaeth. Mae'r Bwrdd, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad a'r Tîm Gweithredol yn cael adroddiad diweddar ar COVID-19 ym mhob cyfarfod. Mae'r adroddiad yn cwmpasu mynychder ac effaith y feirws, risgiau a materion ar y cyfan a diweddiariad ar y rhaglenni profi, olrhain, diogelu a brechu. Mae adroddiadau diweddar diweddar yn nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddeall COVID hir yn well megis modelu data a datblygu llwybrau cleifion COVID hir. Mae'r adroddiad ar Ansawdd a Pherfformiad hefyd yn nodi sut y mae COVID-19 yn effeithio ar fesurau perfformiad allweddol. Hefyd, mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau drwy eithriad er enghraifft ar y modd y mae COVID-19 yn effeithio ar wasanaethau gofal sylfaenol. Mae'r Bwrdd lechyd wedi sefydlu tîm i adolygu achosion o COVID-19 a drosglwyddwyd rhwng pobl yn yr ysbyty. Fel eraill, mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i weithio i ganfod sut orau i asesu niwed ehangach o COVID-19.
- 76 Mae gan y Bwrdd lechyd gyfoeth o ddata ar ei warws data cudd-wybodaeth fusnes 'IRIS'. Ond heb yr arbenigedd cywir mae'n anodd echdynnu'r wybodaeth hon a'i defnyddio. Er bod peth cymorth gwybodeg corfforaethol a Thîm Dadansoddi Data

⁵ Mae Fframwaith Gweithredu COVID-19 GIG Cymru: chwarter 1 2020 i 2021 yn nodi'r pedwar math o niwed a achosir gan COVID-19, sef: niwed o COVID ei hun, niwed o system sydd wedi'i gorlethu yn y GIG ac ym maes gofal cymdeithasol, niwed o ostyngiad mewn gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â COVID a niwed o gamau gweithredu cymdeithasol ehangach/ cyfyngiadau symud.

Ansawdd bach (pedwar aelod o staff), fe wnaeth staff gweithredol y cyfwelom ni â hwy fynegi eu rhwystredigaeth ynghylch y diffyg cymorth dadansoddi data.

- 77 Mae'r diffyg cymorth dadansoddi data wedi golygu bod is-adrannau a meysydd gwasanaeth wedi datblygu eu dangosfyrddau ansawdd a diogelwch cleifion eu hunain. Mae hyn yn golygu bod anghysondeb ar draws y sefydliad, gan ei gwneud yn anodd i dimau gymharu rhwng meysydd gwasanaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno dangosfwrdd ansawdd newydd yn ddiweddar, sy'n cynnwys 15 o fetrigau ac y gellir ei drefnu yn ôl ward, arbenigedd, a safle. Er bod angen datblygu'r dangosfwrdd ymhellach, mae hwn yn ddechrau cadarnhaol. Bydd y Strategaeth Gwella Ansawdd newydd yn amcanu at roi sylw i welliant pellach.
- 78 Nid yw'r holl is-adrannau a gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol wedi datblygu dangosfyrddau ansawdd a diogelwch cleifion. Lle maent wedi gwneud hynny, trafodir y dangosfyrddau mewn cyfarfodydd ansawdd a diogelwch cleifion is-adrannol misol ac yng nghyfarfodydd Timau Rheoli'r Is-adrannau Aciwt. O'r tair is-adran aciwt, dim ond Glan Clwyd sydd ddim yn trafod dangosfwrdd yn ei gyfarfod ansawdd a diogelwch cleifion. Ac ar gyfer llawfeddygaeth gyffredinol dim ond Wrecsam Maelor sy'n cynnal cyfarfod ansawdd a diogelwch cleifion pwrpasol, lle caiff eu dangosfwrdd ei adolygu. Mae'r Tîm Dadansoddi Data Ansawdd wedi cael gorchwyl i safoni dangosfyrddau ansawdd gweithredol. Ac wrth i'r fframwaith llywodraethu integredig newydd ymwreiddio dylai'r Bwrdd Iechyd weld lefelau gwell o gysondeb adroddiadau ar draws timau gweithredol.

Sylw i faterion ansawdd a diogelwch cleifion

- 79 **Caiff y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ei wasanaethu'n dda â gwybodaeth am ansawdd, ac mae hyn yn arwain at ffocws cryfach ar wella. Ond mae angen ffocws cryfach ar ddeilliannau, mesurau lleol, ac ansawdd gwasanaethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu comisiynu gan sefydliadau eraill.**
- 80 Mae adroddiad Ansawdd a Pherfformiad y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar fframwaith cyflawni'r GIG ac mae ei fesurau'n gyson â'r nodau pedwarplyg yn Cymru Iachach. Mae'r Bwrdd yn cael yr adroddiad ym mhob cyfarfod. At ddibenion sicrwydd caiff y mesurau eu rhannu ymhlith y pwyllgorau, gyda'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn craffu ar fesurau ansawdd. Mae fformat yr adroddiad yn glir, gyda mesurau a naratif wedi'u grwpio yn ôl thema a thueddiadau o ran perfformiad yn cael eu dangos. Mae'r naratif yn amlygu risgiau allweddol i berfformiad a chamau gweithredu i fynd i'r afael â hwy. Er bod yr adroddiad hwn yn gyson â mesurau fframwaith cyflawni'r GIG, nid oes unrhyw fesurau y cytunwyd arnynt yn lleol ar gyfer gwasanaethau aciwt na chymunedol (**Argymhelliad 12**).
- 81 Mae gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad gylch gwaith mawr ac mae'n cael adroddiadau sicrwydd rheolaidd ar ansawdd a diogelwch cleifion. Mae adroddiadau rheolaidd y mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn eu cael yn cynnwys:

- Adroddiad ar Ddiogelwch Cleifion – sy'n darparu gwybodaeth chwarterol am agweddau megis digwyddiadau diogelwch cleifion, ymgyfreitha, a rhybuddion diogelwch cleifion.
- Adroddiad ar ddiwyddiadau difrifol – sy'n darparu gwybodaeth a dadansoddiad am ddiwyddiadau difrifol a digwyddiadau byth dros gyfnod o ddau fis.
- Adroddiad ar Brofiad Cleifion a Gofalwyr – sy'n cynnwys cwynion, achosion yr Ombwdsmon ac adborth cleifion a defnyddwyr.

82 Mae'r pwyllgor hefyd yn cael adroddiadau manwl ar faterion cyfredol penodol megis achosion o COVID-19, llawfeddygaeth fasgwlaidd, gwasanaethau wroleg ac iechyd meddwl. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae mwy o ffocws ar wasanaethau gofal eilaidd nag ar ofal cymunedol a sylfaenol ac nid yw'r pwyllgor yn cael unrhyw sicrwydd ynghylch ansawdd gwasanaethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu comisiynu gan sefydliadau eraill.

83 Mae'r Bwrdd Iechyd yn y broses o wella'i adroddiadau ar berfformiad. Fe wnaethom adolygu adroddiadau sicrwydd diweddar ar ansawdd a diogelwch cleifion ac mae'r gwelliannau'n amlwg, megis pwyslais ar ddysgu ac amlygu themâu. Mae hwn yn ddechrau cadarnhaol, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn bod mwy i'w wneud, megis datblygu mesur canlyniadau a phrofiadau a adroddwyd gan gleifion (PROMS a PREMS).

Atodiad 1

Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
<p>Blaenoriaethau o ran ansawdd a diogelwch cleifion</p> <p>A1 Canfuom nad aeth y Bwrdd Iechyd ati'n ffurfiol i adolygu ei flaenoriaethau gwella ansawdd yng ngoleuni canlyniadau COVID-19. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei Strategaeth Gwella Ansawdd newydd yn nodi sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn rheoli ac yn lliniaru'r niweidiau posibl sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19.</p>	<p>Rydym yn derbyn na chafodd blaenoriaethau eu hadolygu'n ffurfiol er ein bod wedi ceisio rhoi blaenoriaeth i liniaru'r pedwar niwed o COVID fel rhan o'n strategaeth sefydliadol. Byddwn yn sicrhau bod y Strategaeth Ansawdd newydd sy'n cael ei datblygu'n adlewyrchu'r argymhelliad hwn. Rydym wedi pennu blaenoriaethau ansawdd interim tra bo'r strategaeth yn cael ei datblygu sy'n seiliedig ar y risgiau allweddol i ansawdd a phryderon a nodwyd.</p>	<p>Medi 2022</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Ansawdd</p>

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
<p>Hyfforddiant rheoli risg</p> <p>A2 Canfuom nad yw'r holl staff gweithredol yn cael eu hyfforddi i gofnodi risgiau clinigol ac anghlinigol a llunio cofrestrau risgiau. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan staff lefelau digonol o hyfforddiant rheoli risg fel eu bod yn gallu cyfrannu'n hyderus at y broses adnabod ac uwchgyfeirio risg.</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddarau ei Strategaeth Rheoli Risg ac fe drefnwyd fod hyfforddiant ar gael. Mae gan y Grŵp Rheoli Risg gylch gorchwyl wedi'i ddiweddarau ac mae arweinydd gweithredol newydd wedi cael ei benodi (y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol). Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithio i roi'r modiwl Cofrestr Risg Unwaith i Gymru newydd ar waith fel rhan o system Datix Cymru ac mae'n debygol o ddarparu'r safle peilot.</p>	<p>Wedi'i gwblhau – hyfforddiant yn cael ei gynnis a'i fonitro'n barhaus trwy'r Grŵp Rheoli Risg</p>	<p>Cyfarwyddwr Llywodraethu</p>

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
<p>Cymorth gwella ansawdd</p> <p>A3 Mae Hyb Gwella Ansawdd y Bwrdd lechyd (BCUQI) wedi datblygu cronfa ddata gwella ansawdd i alluogi staff i rannu, mabwysiadu a dysgu o brosiectau gwella ansawdd presennol. Fodd bynnag, canfuom nad yw'r gronfa ddata'n cael ei defnyddio rhyw lawer. Dylai'r Bwrdd lechyd hyrwyddo'r gronfa ddata ac annog staff i'w defnyddio'n rheolaidd trwy osod targedau ar gyfer cyfranogi, trwy adolygu lefel yr ymgysylltiad yn rheolaidd a thrwy weithredu os yw ymgysylltiad yn rhy isel.</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi creu Cyfarwyddiaeth Trawsnewid a Gwella newydd gan ddwyn ynghyd y gwahanol dimau sy'n rhan o wella ansawdd, gwella gwasanaethau, trawsnewid a rheoli rhaglenni. Bydd hon yn disodli'r Hyb BCUQI. Bydd y tîm yn datblygu dull sy'n sylfaenol wahanol o rannu cyfleoedd i wella a bydd hynny'n cael ei oruchwylio gan y Grŵp Cyflawni Gweithredol ar gyfer Trawsnewid.</p>	<p>Wedi'i gwblhau – Cyfarwyddiaeth Trawsnewid a Gwella newydd yn ei lle.</p>	<p>Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwella</p>

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
<p>Archwilio Clinigol</p> <p>A4 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ailddechrau archwiliadau clinigol wedi i'r rhan fwyaf o weithgarwch gael ei atal yn ystod y pandemig. Dylai'r Bwrdd Iechyd amcanu at ddefnyddio'i raglen o waith archwilio clinigol i ganolbwyntio ar y risg o niwed o ganlyniad i'r pandemig. Er enghraifft, i ddeall yn well beth yw canlyniadau arosiadau hir neu waethygiad cyflyrau cronig. Gallai'r archwiliadau gael eu targedu at arbenigeddau risg uchel.</p>	<p>Bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu rhaglen archwilio clinigol sy'n seiliedig ar ansawdd a risg. Mae'r Adran Ansawdd a'r Adran Effeithiolrwydd Clinigol yn gweithio i ddatblygu cynigion ar gydweithio'n agosach ac mae system archwilio clinigol newydd yn y broses o gael ei chyflwyno.</p>	<p>Mehefin 2022</p>	<p>Pennaeth Effeithiolrwydd Clinigol</p>

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
<p>Adolygiadau o farwolaethau</p> <p>A5 Canfuom nad yw adroddiadau adolygu marwolaethau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad mewn modd amserol. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cael adroddiad adolygu marwolaethau chwarterol, sy'n amlygu gwersi a pha gamau gweithredu a gymerwyd.</p>	<p>Bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno trefn i adrodd ar adolygiadau o farwolaethau wrth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad naill ai trwy adroddiad wedi'i neilltuo neu'r Adroddiad ar Ddiogelwch Cleifion.</p>	<p>30 Mehefin 2022</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Ansawdd a Chyfarwyddwr Meddygol Cyswllt ar gyfer Adolygu Marwolaethau</p>

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
<p>Adolygiadau o farwolaethau</p> <p>A6 Canfuom fod adolygiadau o farwolaethau, ar y cyfan, yn cael eu harwain gan staff meddygol, ond bod awydd am adolygiadau amlddisgyblaethol o farwolaethau. Dylai'r Bwrdd lechyd geisio sefydlu system lle mae cymysgedd amlddisgyblaethol o staff yn cael eu cynnwys yn rheolaidd mewn adolygiadau o farwolaethau.</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi penodi Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt newydd ar gyfer Adolygu Marwolaethau i ddarparu arweinyddiaeth strategol ac mae yn y broses o wreiddio'r Fframwaith Dysgu o Farwolaethau newydd. Mae'r Grŵp Lleihau Marwolaethau y Gellir eu Hosgoi wedi cael ei ailffurfio ac mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio gyda'r ffrwd waith genedlaethol ar gyfer Modiwl Marwolaethau newydd Datix Cymru. Bydd y system newydd ar y cyfan yn gwella ymwneud amlddisgyblaethol.</p>	<p>30 Medi 2022</p>	<p>Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt Adolygu Marwolaethau</p>
<p>Rhannu gwersi ac arfer da</p> <p>A7 Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod nad oes ganddo eto broses i rannu gwersi ar draws y sefydliad mewn modd systematig. Dylai'r Bwrdd lechyd ddefnyddio'r fframwaith llywodraethu integredig newydd a'r Hyb Gwella Ansawdd (BCUQI) fel offer i gefnogi dysgu sefydliadol a rhannu arfer da ar draws y sefydliad.</p>	<p>Bydd y Bwrdd lechyd yn rhoi llyfrgell ddysgu ar waith trwy ei Fewnwyd newydd, BetsiNet yn hytrach na gwefan allanol yr Hyb BCUQI a fydd yn dod yn rhan o'r gwasanaeth Trawsnewid a Gwella newydd. Hefyd, bydd y Polisi Cwynion a'r Polisi Digwyddiadau diwygiedig yn nodi dulliau newydd o rannu gwersi'n systematig gan gynnwys Digwyddiadau Dysgu a Bwletin Dysgu. Bydd y broses Rhybuddion Diogelwch yn cael ei diwygio hefyd. Mae'r camau gweithredu hyn yn rhan o'r camau lliniaru ar gyfer y risg ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.</p>	<p>30 Medi 2022</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Ansawdd</p>

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
<p>Gwerthoedd ac ymddygiadau</p> <p>A8 Dim ond 37.9% o'r staff yn y Bwrdd lechyd a ymatebodd i arolwg staff y GIG oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn cymryd camau gweithredu effeithiol pan fo bwlio, aflonyddu neu gam-drin yn digwydd. Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu ei systemau ar gyfer rheoli pryderon staff mewn perthynas â bwlio, aflonyddu neu gam-drin, ar gyfer mynd i'r afael â'r pryderon hynny ac ar gyfer dysgu ohonynt.</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi mabwysiadu'r Polisi Parch a Datrys Cymru gyfan. Mae'r Bwrdd lechyd wedi lansio Polisi a fframwaith newydd Dweud Eich Dweud yn Ddiogel (Speak Out Safely) gan gynnwys penodi Gwarcheidwaid Dweud Eich Dweud yn Ddiogel, Tîm Amlddisgyblaethol i oruchwylio pryderon a llwyfan diogel newydd i staff godi pryderon yn ddienw. Hefyd, mae gwaith sylweddol ar y gweill fel rhan o Yn Gryfach Gyda'n Gilydd i archwilio a gwella ymgysylltiad a chefnogaeth staff.</p>	<p>Wedi'i gwblhau – ac yn parhau trwy'r rhaglen Yn Gryfach Gyda'n Gilydd</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyswllt Adnoddau Dynol</p>

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
<p>Ymdrin â chwynion</p> <p>A9 Canfuom nad oedd timau gweithredol yn gwybod pa gyfran o staff oedd wedi cael eu hyfforddi i ymchwilio i gwynion, digwyddiadau a dadansoddi achosion sylfaenol. Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu lefelau'r hyfforddiant ymdrin â chwynion ar draws y sefydliad. Os yw hyn yn dangos diffygion, dylid ehangu'r rhaglen o hyfforddiant.</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi diweddarau ei hyfforddiant ymdrin â chwynion, ac fe ail-lansiwyd hyn yng ngwanwyn 2022 (yn dilyn gohirio oherwydd pwysau ar ôl y gaeaf). Bydd hyfforddiant yn cael ei gofnodi o fewn y system Cofnodion Staff Electronig. Hefyd, cynhelir clinigau cymorth cwynion rhithwir yn wythnosol i gefnogi staff.</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Ansawdd</p>

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
<p>Llifoedd gwybodaeth a sicrwydd</p> <p>A10 Roedd llai na hanner (42%) yr ymatebwyr i'n harolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth cleifion ar gyfer y maes y maent yn gweithio ynddo. Er bod adborth cleifion yn cael ei rannu gyda wardiau'n fisol, mae angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl staff ar wardiau'n ymwybodol o'r adborth hwn a'i fod yn hygyrch i staff.</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi rhoi System Adborth Amser Real Cymru Gyfan newydd Civica ar waith. Mae'r holl wasanaethau ar gael yn y system hon gyda phob rheolwr tîm/ward ac uwch yn cael mynediad at y dangosfwrdd. Anfonir Adroddiadau Misol at wasanaethau hefyd. Mae Hyrwyddwyr Cleifion a Gofalwyr yn cael eu recriwtio gyda thros 100 yn eu lle bellach. I ategu hyn mae fframwaith newydd ar gyfer casglu adborth cleifion a gweithredu arno'n cael ei ddatblygu gan nodi safonau ac arfer da i dimau eu dilyn.</p>	<p>30 Medi 2022</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Ansawdd</p>

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
<p>Llifoedd gwybodaeth a sicrwydd</p> <p>A11 Cyflwynodd y Bwrdd lechyd fformat adrodd newydd (A driphlyg) i wella llif sicrwydd ansawdd. Ond canfuom fod lefelau'r manylder a ddarperir yn yr adroddiadau'n amrywio ychydig. I leihau'r risg y bydd materion ansawdd a diogelwch yn cael eu colli neu'n peidio â chael eu huwchgyfeirio'n gywir dylai'r Bwrdd lechyd ddarparu canllawiau ar gyfer staff ar ddefnyddio'r templed newydd, gan nodi'n enwedig faint o fanylder a ddisgwylir a sut i gytuno pa faterion sy'n cael eu huwchgyfeirio.</p>	<p>Fel rhan o'r Model Gweithredu newydd sy'n cael ei ddatblygu fel rhan o'r rhaglen Yn Gryfach Gyda'n Gilydd, bydd fframwaith llywodraethu a sicrwydd integredig newydd yn cael ei ddatblygu a hwnnw'n nodi fframwaith llywodraethu newydd, a safonau ac egwyddorion ar gyfer llywodraethu ar draws y sefydliad gan gynnwys adrodd, uwchgyfeirio ac atebolrwydd.</p>	<p>30 Mehefin 2022</p>	<p>Cyfarwyddwr Llywodraethu</p>

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
<p>Mesurau perfformiad ansawdd a diogelwch cleifion</p> <p>A12 Er bod y mesurau yn yr adroddiad integredig ar berfformiad yn gyson â fframwaith cyflawni'r GIG, canfuom nad oes mesurau ansawdd y cytunwyd arnynt yn lleol na mesurau ehangach fel ar gyfer gwasanaethau cymunedol. Trwy'r Strategaeth Gwella Ansawdd newydd, dylai'r Bwrdd lechyd adolygu mesurau ansawdd cyfredol gyda golwg ar ddatblygu mesurau sy'n adlewyrchu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu ac yn eu comisiynu ar draws gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd.</p>	<p>Mae Adroddiad Amlygu Ansawdd newydd wedi cael ei lunio ar gyfer y Bwrdd. Bydd mesurau ansawdd newydd yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth Ansawdd newydd.</p>	<p>30 Medi 2022</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Ansawdd</p>

Atodiad 2

Canfyddiadau'r arolwg staff

Arddangosyn 4: canfyddiadau'r arolwg staff

Datganiadau ynglŷn ag agweddau	Nifer y staff yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau					Cyfanswm yr ymatebwyr
	Cyt-uno'n gryf	Cyt-uno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghyt-uno	Anghyt-uno'n gryf	
Darparu gofal diogel ac effeithiol						
1. Gofal am gleifion yw prif flaenoriaeth fy sefydliad	58	70	21	7	5	162
2. Rwy'n fodlon ar ansawdd y gofal yr wyf yn ei roi i gleifion	67	57	11	20	7	162
3. Mae digon o staff o fewn y maes yr wyf yn gweithio ynddo/yr adran yr wyf yn gweithio ynddi i roi cymorth i ddarparu gofal diogel ac effeithiol	13	39	30	39	40	163

Datganiadau ynglŷn ag agweddau	Nifer y staff yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau					
	Cyt-uno'n gryf	Cyt-uno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghyt-uno	Anghyt-uno'n gryf	Cyfanswm yr ymatebwyr
Darparu gofal diogel ac effeithiol						
4. Mae fy amgylchedd gweithio'n cefnogi gofal diogel ac effeithiol	27	65	30	24	17	163
5. Rwy'n cael diweddariadau rheolaidd ar adborth cleifion ar gyfer y maes yr wyf yn gweithio ynddo / yr adran yr wyf yn gweithio ynddi	14	54	38	37	14	162
Rheoli pryderon cleifion a staff						
6. Mae fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion	37	77	25	7	3	162
7. Mae fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan staff	16	56	41	26	18	159
8. Mae fy sefydliad yn annog staff i hysbysu ynghylch gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol	45	79	25	5	5	161

Datganiadau ynglŷn ag agweddau	Nifer y staff yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau					
	Cyt-uno'n gryf	Cyt-uno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghyt-uno	Anghyt-uno'n gryf	Cyfanswm yr ymatebwyr
Rheoli pryderon cleifion a staff						
9. Mae staff sy'n gysylltiedig â gwall, digwyddiad trwch blewyn neu ddigwyddiad gwirioneddol yn cael eu trin yn deg gan y sefydliad	21	68	36	17	7	161
10. Pan hysbysir ynghylch gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau diogelwch cleifion, mae fy sefydliad yn gweithredu i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto	27	77	33	8	5	160
11. Rydym yn cael adborth am newidiadau a wnaed mewn ymateb i wallau, digwyddiadau trwch blewyn a digwyddiadau gwirioneddol yr hysbyswyd yn eu cylch	19	58	45	26	7	161
12. Byddwn yn teimlo'n hyderus yn codi pryderon ynghylch arfer clinigol anniogel	32	70	32	15	10	163

	Cyt-uno'n gryf	Cyt-uno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghyt-uno	Anghyt-uno'n gryf	
Rheoli pryderon cleifion a staff						
13. Rwy'n hyderus bod fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon ynghylch arfer clinigol anniogel	28	67	37	13	11	164
Gweithio yn fy sefydliad						
14. Mae cyfathrebu rhwng uwch rheolwyr a staff yn effeithiol	14	39	38	45	28	164
15. Mae fy sefydliad yn rhoi anogaeth ar gyfer gwaith tîm	27	70	38	16	11	163
16. Mae gennyf ddigon o amser yn y gwaith i gwblhau unrhyw hyfforddiant statudol a gorfodol	9	43	34	43	35	164
17. Mae trefniadau sefydlu ar gyfer staff newydd a staff dros dro (e.e. staff asiantaeth/locwm/banc/staff wedi'u hadleoli) yn y maes yr wyf yn gweithio ynddo/ yr adran yr wyf yn gweithio ynddi yn cefnogi gofal diogel ac effeithiol	12	60	46	15	16	163 ⁶

6 Fe wnaeth 14 o ymatebwyr nodi, 'ddim yn gwybod'.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales

Gwefan: www.audit.wales

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.